

NOSC 2026 Rhif 145

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan
Court Farm, Torfaen) (Terfyn
Cyflymder 50 mya) 2026

Gwnaed

12 Awst 2026

Yn dod i rym

14 Awst 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A4042, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan Court Farm, Torfaen) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Awst 2026.

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656.

NWSI 2026 No. 145

ROAD TRAFFIC

The A4042 Trunk Road (Pontypool
Roundabout to Court Farm
Roundabout, Torfaen) (50 mph
Speed Limit) Order 2026

Made

12 August 2026

Coming into force

14 August 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Gwent Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Title and commencement

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Pontypool Roundabout to Court Farm Roundabout, Torfaen) (50 mph Speed Limit) Order 2026 and this Order comes into force on 14 August 2026.

- (1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 1990/1656.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol, neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Awst 2026

Nicci Hunter

Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

- (1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds, or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated

12 August 2026

Nicci Hunter

Head of Governance and Assurance
Welsh Government

- (1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r de o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol y gylchfan honno.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 216 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno.

Cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Court Farm hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 40 metr i'r de o'r gylchfan honno.

SCHEDULE

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 36 metres south of Pontypool Roundabout to its junction with the southern side of that roundabout.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Pontypool Roundabout to a point 216 metres north-east of that roundabout.

The circulatory carriageway of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 45 metres south of its junction with the south-eastern side of Court Farm Roundabout to its junction with the north-eastern side of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the southern side of Pontypool Roundabout to a point 40 metres south of that roundabout.